

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 24 Gorffennaf 2017

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: POLISI

Teitl: Fframwaith Adolygiadau gan Gymheiriaid GIG Cymru

Dyddiad dod i ben/Adolygu: Medi 2022

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr (drwy Grŵp Cydweithio Gweithredol GIG Cymru); Cyfarwyddwyr Meddygol a Chyfarwyddwyr Nyrsio y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Er gwybodaeth:

Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Aelodau'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol;
Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Adolygiadau gan Gymheiriaid;
Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Tîm Gweithrediadau – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
Tîm Cyfathrebu – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
Prif Swyddog Meddygol
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

Angen gweithredu erbyn: I gael effaith ar unwaith

Anfonwyd gan: Janet Davies, Pennaeth Ansawdd Gofal Iechyd, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Enw(au) Cyswilt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Mark P Williams, yr Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. 0300 062 5420 mark.williams2@wales.gsi.gov.uk

Dogfen(nau) amgaeedig:

Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn, a'r Atodiadau a restrir isod, ar gael yn E-lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru yn <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/page/92766>

Atodiad 1: Fframwaith Adolygiadau gan Gymheiriaid GIG Cymru

Annwyl Gydweithwyr,

Fframwaith Adolygiadau gan Gymheiriaid GIG Cymru

Yn yr Adolygiad o Ansawdd Gofal Iechyd yn y DU 2016, a gynhaliwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, gwnaed sylwadau cadarnhaol ynghylch adolygiadau gan gymheiriaid yng Nghymru. Ymhlith ei argymhellion roedd cynyddu'r defnydd o adolygiadau gan gymheiriaid a dod o hyd i ffyrdd o ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd ynddynt, gan gydnabod bod adolygiadau gan gymheiriaid yn adnodd pwysig ar gyfer gwella ansawdd.

O ganlyniad, aethpwyd ati i ddatblygu fframwaith ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid, gan adeiladu ar gynlluniau sy'n bodoli eisoes megis y rhai ar gyfer canser, awdioleg, a gofal lliniarol.

Yn 2015, sefydlwyd Grŵp Llywio Adolygiadau gan Gymheiriaid i Gymru gyfan gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r GIG yng Nghymru, o dan gyfarwyddyd y Fforwm Ansawdd a Diogelwch, er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen. Rydym yn ddiolchgar iawn i Dr Tom Crosby a gadeiriodd y grŵp, ac i gydweithwyr eraill, am eu cyfraniad gwerthfawr at y gwaith hwn.

Wrth gyflwyno'r rhaglen adolygiadau gan gymheiriaid, dylid pwysleisio ei bod yn adnodd i wella ansawdd yn barhaus, ac felly ei bod yn cefnogi Safon Iechyd a Gofal 3.3 (Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi). O safbwynt ymarferol, cydnabyddir bod cynnal yr adolygiadau hyn yn effeithio ar amser y staff, yn ogystal ag ar hyfforddiant, cynllunio ac adnoddau. Felly, dylid pwysu a mesur yn ofalus wrth gymryd unrhyw gamau i ehangu'r broses o gynnal adolygiadau gan gymheiriaid yn y GIG, er mwyn helpu i sicrhau bod y gwelliannau mewn ansawdd sy'n deillio o'r adolygiadau hyn yn rhai gwerth chweil.

Cafodd y fframwaith ei gymeradwyo gan Brif Weithredwyr Grŵp Cydweithio Gweithredol GIG Cymru, a bydd strwythur llywodraethu cydweithredol GIG Cymru yn goruchwyllo rhaglen adolygiadau gan gymheiriaid ar draws Cymru gyfan maes o law.

Dylai GIG Cymru bellach ddefnyddio canllawiau'r fframwaith hwn i sicrhau bod adolygiadau gan gymheiriaid yn gyson ac yn ymarferol, gan arwain at fanteision mesuradwy.

Yn gywir

Janet Davies

Pennaeth Ansawdd Gofal Iechyd, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol